W935.5.31

# BYR GOFIANT,

Rev. John Owens Llanwrtyd

YNGHYD

# A GALARNAD,

ER COFFADWRIAETH AM Y

# PARCH W. DAVIES,

GYNT GWEINIDOG YR EFENGYL

YN SALEM, LLANYMDDYFRI,

AM 17eg O FLYNYDDAU;

*Yr hwn a orphenodd ei yrfa, Tachwedd 2ail,* 1844,

**YN 44 MLWYDD OED.**

---

GAN JAMES REES, LLANYMDDYFRI.

---

"Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd."

---

LLANYMDDYFRI:
ARGRAFFWYD GAN JAMES MORRIS, HEOL Y BRENIN.

1846.

# BYR GOFIANT.

Y MAE holl genhedloedd y ddaear (hyd yr nod yn eu cyflwr barbaraidd), wedi dangos mawr sel, am anfarwoli a bytholi coffadwriaeth am eu hanwyliaid a'u henwogion, trwy wahanol ddulliau; rhai trwy, gofgolofnau, ac eraill trwy wahanol gofnodau; a dengys ein gwlad ein hunain hyn yn amlwg, trwy y colofnau o feini geirwon a welir yma a thraw ar hyd y dywysogaeth; ond yn yr Ysgrythyrau santaidd gwelir dull ardderchog o hyn yn cael ei ddwyn ym mlaen gan y proffwydi a'r ysgrifenwyr ysprydoledig yn rhagoraf, o herwydd eu bod yn eu hysgrifenu; a diau mai dyma y dull goreu ac ardderchoeaf i drosglwyddo gwybodaeth i'r oes a ddel o ûn dull arall. Ac y mae yn sicr fod yr arferiad yn ddefnyddiol a chanmoladwy, a thrwy hynny yn deilwng o efelychiad; oblegid, wrth ddarllen Buchdraethodau am enwogion y cyfodir ym mhawb, o'r glaslanc i'r henafgwr briglwyd, awydd am ymdebygoli iddynt yn yr hyn oedd rinweddol a defnyddiol. Ac os oedd cofnodi bucheddau y rhai a hynodasant eu hunain mewn defnyddioldeb yn y wladwriaeth; neu a ragorasant yn eu gwrol orchestion dros eu gwlad ar faes y gwaed, yn deilwng o gael eu cofnodi (fel yn ddiau ei bod) mwy o lawer ydyw y ddyled sydd ar Gristionogion i gofnodi bucheddau y rhai hynny a fuant yn addurn i grefydd yr Oen, gan gysegru eu bywyd yn gwbl i'w wasanaethu ef a'i Eglwys, ac ymdrechu trwy bob moddion at achubiaeth eneidiau anfarwol, a lledaeniad Teyrnas Emmanuel yn y byd. Mae hyn i'w weled yn amlwg, wrth ystyried pwysfawredd tragywddoldeb yn fwy nag amser, a dedwyddwch bythol eneidiau yn fwy na'u lles tymorol; a hyn a gaiff fod dan sylw yn yr ychydig linellau canlynol yn ol fy nawn byr, a'r ychydig ddefnyddiau sydd wrth law; sef byr goffadwriaeth am y Parch W. Davies, gynt o Salem, Llanymddyfri. Caraswn pe buasai rhagor o ddefnyddiadau wrth law, a rhyw un medrus wrth y gorchwyl, fel y buasai cofiant teilwng o hono i gael ei gyhoeddi; ond gan mai fel arall y mae, nid oes ond gwneuthur y goreu yn ol y defnyddiau.

Mae yn ymddangos i'r Parchedig W. Davies gael ei eni a'i fagu yn y Glasgoed, yn Mhlwyf Henllan-amgoed, Swydd Benfro, yn y flwyddyn 1800. Enwau ei rieni oedd John ac Elizabeth Davies: yr oeddent yn grefyddol a pharchus yn eu cymydogaeth; bu ei Dad rai blynyddau yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig.

Ond wrth ystyried natur Eglwys y Testament Newydd, ymunodd â'r Eglwys gynulleidfaol yn Henllan, dan ofal y Parch J. Lloyd. Ei Fam ydoedd yn aelod hardd a defnyddiol gyda y Bedyddwyr, a llafurus iawn ydoedd yn ei chylch, a diwyd iawn gyda'r moddion cyhoeddus. Llawer a gynghorodd ac a hyfforddiodd ar ei phlant yn llwybrau rhinwedd a chrefydd, a llawer gweddi daer oddiar galon deimladwy a ddanfonodd at Dduw drostynt ar iddo ymweled â hwynt yn ffordd ei ras achubol. Cafodd gwrthrych ein Cofiant gryn ddysg yn y Saesonaeg yn y gymydogaeth pan yn ieuanc. Nid yw yn hysbys i'r ysgrifenydd trwy ba foddion yr ymwelodd Duw â'i galon gyntaf; ond yr oedd yn fwy sobr na'i gyfoedion er yn blentyn, ac yn fawr ei awydd i ddysgu a chwilio yr Ysgrythyrau santaidd, a hynod ddiwyd gyda'r moddion cyhoeddus, yn sabothol ac wythnosol. Dengys yr eginyn yr hyn a fydd pan ddel i addfedrwydd dyddiau yn gyffredin, cafodd ei dderbyn yn gyflawn aelod, y 25ain o Gorphenaf, yn y flwyddyn 1815, gan y Parch J. Lloyd, yn Henllan, pan heb gyrhaedd ei 15eg oed. Ni wnaeth Mr. Davies fel llawer o'r rhai a garant segura a diogi ar ol cael ei le yn gyflawn yn yr Eglwys; ond dangosodd ei fod yn caru gweithio yn ngwinllan ei Arglwydd, a gwneuthur a allai dros ei ogoniant yn y byd. Diwyd iawn oedd gyda'r moddion cyhoeddus yn yr Eglwys a'r gymdogaeth; ac ni adawai gyfarfod i fyned heibio, os gallai mewn un modd yn y byd ei gyrhaedd. Llawer iawn hefyd a weddiai am gael crefydd gyflawn, bydded iddi gosti faint a gostia iddo; ac am nerth i bara, yn ddiwarth i grefydd. Cloddiodd yn foreu am y graig, ac adeiladodd arni gan roddi ei holl bwys ar Iawn y cyfryngwr, a dim arall am ei fywyd tragywyddol. Fel hyn aeth ymlaen gan gynyddu mewn dawn, gras, a gwybodaeth, a hyny yn eglur i bawb. Yn fuan iawn, trwy ei gynnydd, canfu yr Eglwys a'r gweinidog ei fod yn feddiannol ar lestr a thalentau mawrion, deall goleu a chynneddfau cryfion, cymwys i'r weinidogaeth; am hynny mai nid cymwys eu cadw dan lestr; a thrwy hynny anogwyd ef yn daer i'w harfer yn eu plith, ynghyd â'r Eglwysi cymydogaethol, lle byddai galw am dano, â hyn hefyd y cydsyniodd gyda llawer o wylder ac ofn; gan eu hanog i weddio yn daer drosto, a'i hyfforddi fel dyn ieuanc. Yn awr canfyddwyd, trwy ei ddeall goleu ai ddull llithrig ac amlwg yn

egluro gwirioneddau y Bibl, ei fod yn llestr etholedig i drosglwyddo gwybodaeth iachawdwriaeth i'w gyd genedl; am hynny anogasant ef fyned i ûn o'r Athrofâu, fel y byddai iddo gael ei ddysgu yn y ieithodd dysgedig, a gwybodau angenrheidiol eraill, i'r diben i'w gymhwyso i waith mawr y weinidogaeth,—â hyn hefyd y cydsyniodd. Gosodwyd ef, o ganlyniad, yn yr Athrofa, (pryd hynny yn Llanfyllin), o dan ofal y Dr. G. Lewis, yn y flwyddyn 1816, lle bu am 6 flynedd y lle ermawr glod iddo ei hun a boddlonrwydd i'w athrawon yr hy nododd ei hun yn mhob cangen o ddysgeidiaeth ag oedd yn cael ei haddysgu yn yr ysgol fuddiol ac anrhydeddus honno; bu yn hynod ostyngedig ac ufydd i'w athrawon, ac y mae tystiolaeth, y dydd heddyw, o'i ddiwair ymarweddiad a'i dduwioldeb yn yr ardaloedd hynny. Elai allan ar y Sabothau i'r cymdogaethau i bregethu, ond nid heb ganiatad ei athraw. Rhoddai daith ar wyliau yr ysgol; a hynod dderbyniol oedd yn mhob cymydogaeth yn ei ymweliad.

Yn y flwyddyn 1822, ymadawodd â'r ysgol, rhoddodd daith trwy wahanol ardaloedd. Daeth i'r Casnewydd, *(Newport)*, ac arosodd yno ûn mis ar-ddeg, arosodd eilwaith naw mis yn Carmel, Cendle, ac yn Rhydyblew. Yn fuan or ol hyn cafodd alwad ûnfrydol gan yr Eglwys yn Llantrisant, ac â hon y cydsyniodd, trwy bwyll ac ystyriaeth; ac ar y 6fed o Fai, yn y Flwyddyn 1824, cafodd ei neillduo yno i gyflawn waith y weinidogaeth, ac y mae, y dydd hwnw, heb ei angofio gan lawer sydd yno ac nis anghofiant. Bu yma ynllafurio gyda chryn lwyddiant yn y dref a'r gymydogaeth, gan fyned oddiamgylch gan wneuthur daioni gyda mawr barch a derbyniad gyda phawb o bob enwad, gan ei gymeryd yn esiampl mewn hynawsedd a gostyngeiddrwydd. Yn ystod ei arosiad yn Llantrisant, priododd â Susanah Hopkins, ar y 17eg o Ragfyr, yn y Flwyddyn 1825. Merch ieuanc rinweddol, lawn o dduwioldeb a gwybodaeth ysgrythyrol, ydoedd hon. Yr ydoedd yn aelod hardd a defnyddiol er ys rhai blynyddoedd gyda'r Trefnyddion yn y lle hwnw, yr oedd Mr. Davies yn hynod ddedwydd yn ei ymgeledd a buont fyw gan gydymdeimlo a charu eu gilydd fel Isaac, a Rebeca. Ar y 9fed o Gorphenhaf, 1827 ganed iddynt ferch; yr hon sydd yn awr yn fyw ac yn grefyddol er ys blynyddoedd. Gofaled Duw am dani, a rhodded iddi lawer o hynawsedd a duwioldeb ei rhieni. Er cymaint

oedd cariad Mr. Davies at yr eglwys yn Llantrisant, nid yno yr oedd ei faes gweithio wedi ei fwriadu gan ei feistr mawr,—Mae ffyrdd Duw yn y mor a'i lwybrau yn y dyfroedd dyfnion; cafodd alwad gan Eglwys Salem yn Llanymddyfri. Ar ol ymgynghori â'i briod a'r eglwys yn Llantrisant a llawer o'i gyfeillion, ac a Duw yn benaf, penderfynodd symyd i Lanymddyfri; ar y 4ydd o Chwefror, yn y flwyddyn 1828, cymerodd ofal yr eglwys yn Salem; lle y bu yn llafurio gyda llwyddiant, parch, a derbyniad gyda phob graddau, hyd ddydd ei farwolaeth. Ar ol ei ddyfodiad yma, aeth yr hen addoldy yn rhy fychan i'r gwrandawyr, a thynwyd ef i lawr, ac adeiladwyd Capel newydd eang a hardd, a chafodd y fraint o'i weled wedi ei glirio cyn ei farwolaeth. Cynyddodd yr eglwys o'r ugeiniau i'r canoedd, ond yn wyneb pob llwyddiant a chysur oddiwrth yr eglwys, cafodd ei ddwys ofydio oddiwrth ei anwylaf Susanah. Aeth hon yn glaf iawn, a bu yn hir yn gystyddiol, ond hynod foddlongar i ewyllys ei Thad nefol, gan bwyso yn gwbl am ei holl ar aberth y Cyfryngwr. Torai allan yn aml, yn ei chystudd, mewn gorfoledd a diolchgarwch i Dduw am y gobaith gwynfydedig sydd i'r saint; ac felly hedeg wnaeth ei henaid, mewn llawn orfoledd, at y dyrfa ail anedig, ar y 9fed o Gorphenhaf, yn y Flwyddyn 1830, gan adael priod tyner, a merch amddifad i alaru ar ei hol yn nglyn wylofain. Hebryngwyd ei rhan farwol yn barchus at ei phobl i Lantrisant i'w chladdu. Yno y gorphwys hyd y boreu mawr. Bu Mr. Davies yn hir yn ofidus a galarus ar ei hol, a gosododd ei deimladau allan mewn galarnad am dani, fel Dafydd am ei gyfaill Jonathan. Trwm oedd yr ergyd, ac yntau a'i teimlodd yn ddwys am flynyddau; ond nid yn galaru fel ûn heb obaith: am hynny, ymdawelai i ewyllys ei Dad nefol, gan ymddigrifu yn ei ferch anwyl a hoff: ond ni lesgodd yn ei lafur gweinidogaethol. Yn y flwyddyn 1837, wrth ei weled ei hun yn ddiymgeledd, a chael ei gynghori gan lawer o'r brodyr i edrych am ryw ûn i ofalu am dano, penderfynodd eilwaith i briodi Mariah Jones, yr hon oedd yn aelod yn Salem er ys blynyddau, ac yn llawn zel grefyddol a gwybodaeth. Priododd yr 28ain o Dachwedd, yn y flwyddyn a nodwyd. Bu hon hefyd yn ymgeledd gymwys iddo, ac o les mawr iddo yn ei amgylchiadau. Ganed iddynt ferch ar y 3ydd o Fehefin,

yn y flwyddyn 1841. Yr hon, yn bresenol, yw unig gysur ei mham, a'i hoffder yn ei galar. Bydded i Dad yr amddifad, yr hwn sydd yn gofalu am y gweddwon, eu hymgeleddu, a thaned ei aden drostynt ar bob ystorom a ddichon ei cyfarfod yn y byd drwg presenol. Yn awr yr ydym wedi bras deithio y rhan fwyaf o fywyd Mr. Davies. Fel ag yr oedd yn tynu ymlaen yn y glyn yr oedd ei awydd yn cynyddu am wneuthur daioni, ac yn fwy dwys a thaer yn ei weinidogaeth gyhoeddus. Er hynny, nid oedd neb yn meddwl fod amser ei ymadawiad yn agosau. Tua diwedd Medi ymddangosai yn gryn anhwylus, a chynyddu wnaeth ei glefyd, er ei fod yn ymdrech â'i holl egni yn ei erbyn, ac wedi pregethu ûnwaith neu ddwy pan y dylasai fod yn y gwely; ond ymgadarnhau wnaeth ei glefyd fel gwr arfog, a'i osod yn gwbl analluog ar ei wely, gan gwbl ddiystyru pob dyfais feddygol: ond yn wyneb pwys ei glefyd yr oedd ei obaith yn sicr, a byd arall yn gwenu ar ei enaid, ac arno chwant i'w ddatod a bod gyda Christ, o afael poen a gofid. Er hynny, yn wylaid, nid yn rhyfygus. Y mae edrych ar angau yn ei wyneb yn gwneuthur anwr o'r gwron mwyaf calonog: er hynny canodd ychydig cyn ei ymadawiad y pennill canlynol, "Yn yr anial 'rwyf yn griddfan, Am gael gweled bryniau Canaan, &c." Er fod ei gyfeillion yn addo iddynt ei hunain ei gyfeillach a'i ddefnyddioldeb ychydig yn hwy, wrth ei weled ychydig yn well nos Wener, nid oedd hyn ond llygad o haul cyn ei llwyr guddio dan gwmwl. Yn foreu y Sadwrn canlynol, cymerodd ei aden yn dawel i fyd yr ysbrydoedd, sef ar yr ail o Dachwedd, yn y flwyddyn 1844, yn 44ain oed; y dydd Mercher canlynol ymglasgodd tyrfa luosog o weinidogion a chyfeillion i wneuthur y gymwynas olaf â rhan farwol eu cyfaill ymadawedig. Ar ol gweddio a chanu yn y ty, dygwyd ei gorph i'r capel, lle y dechreuwyd trwy weddi gan y Parch D. Jones, Gwynfe, ac y pregethwyd gan y Parch. D. Williams, gynt o Llanwrtyd, oddiwrth Diar. 10. 7. Yna cychwynwyd ag ef tua Phentretygwyn, lle y traddodwyd pregeth gwmwysiadol oddiar Ioan. 15. 7. gan y Parch. G. Griffiths, Aberhonddu, ac anerchwyd y gynulleidfa mewn modd dwys wrth y bedd, gan y Parch. W. Williams, Llandilo; terfynwyd trwy weddi gan y Parch. R. Jones, Ffaldybrenin, yna dychwelodd pawb i'w anedd yn brudd a galarus; gan ddywedyd, Ni chaf weled ei

wyneb ef mwy; canys ni ddychwel efe attaf fi, ond mi a af atto ef.

YCHYDIG YMHELLACH AR NODWEDDIAD MR. DAVIES.

Pa un bynag a wnelom a'i cymeryd Mr. Davies fel dyn, a'i fel Cristion, yr oedd yn gyflawn, ac yn wrthrych teilwng iawn o efelychiad fel esiampl i'w ddilyn, yr oedd yn hynod gyfeillgar a chymwynasgar,—yn gyfaill trwyadl bob amser i'w gyfaill; ac ni charai glywed neb yn dywedyd yn ddrwg am gyfeillion yn eu cefnau. Nid wyf yn credu ei fod yn elyn i neb, na neb yn elyn iddo yntau, nac o'i achos ef yn tramgwyddo; ei arwydd air oedd Tangnefedd. Hynod adeiladol oedd ei gyfeillach. Nid wyf yn cofio i mi fod yn ei gyfeillach heb dderbyn rhyw adeiliadaeth. Byddai yn wastad rywbeth buddiol yn cael ei drafod. Canfyddai ei gyfaill draw, ac anhawdd i neb gael ei gyfarch yn gyntaf. Fel cymydog a gwladwr, carai wneuthur i eraill fel y dymunai i eraill wneuthur iddo i hunan; yr oedd ei lygad ai gof yn hynod dda a chraffus,— adwainai gyfaill ar ol ei weled ûnwaith ymhen blynyddau, a chofiai pa le y bu y gyfeillach; ond fel Cristion a phregethwr, gallwn ei ystyried yn seren o'r maintioli mwyaf. Yr oedd yn feddiannol ar symledd cristnogol a gostyngeiddrwydd efangylaidd; teimladau drylliog a serchiadiau nefolaidd, a chariad a ffydd gref; a'r pethau hyn yn cael eu rheoleiddo gan reswm oddi ar ddeall goleu, wedi eu berffeithio gan wybodaeth a phrofiad; yn ysgolhaig da; er hyny, nid ymffrostiai yn ei ddysg, a'i ddawn, a'i wybodaeth. Yr oedd yn bregethwr da, yn resymwr cryf, ac ymadroddwr rhwydd, dengar, ac argraffiadol yn eu ddoniau;— yn astudio, ac yn trefnu ei fatterion yn dda a chymwysiadol. Duwdod Crist, a gwerthfawrawgrwydd y Iawn, a'r angenrheidrwydd o waith yr Yspryd, oeddynt ei felus a'i wastadol fyfyrdodau; a dal colledigaeth dyn yn gwbl o hono ei hun, a'i gadwedigaeth o Dduw, yn nhrefn gras yn unig; nid ymrwymai wrth gredo neb, ond barnai drosto ei hun yn ngoleu y Bibl, fel creadur cyfrifol i Dduw am ddaliadau. Ni charai ddadleu er nad oedd yn wan mewn dadl; ond ni phetrusai ddangos ei olygiadau (gyda medrusrwydd) pan fyddai achos yn galw, ac nid heb hyny; canys ystyriai hyny bob amser yn tueddu i oeri cariad. Nid yn yr areithfa, yn unig, yr oedd defnyddioldeb Mr. Davies, ond yr oedd yn feddiannol ar gymwysderau neillduol yn y

gyfeillach eglywsig, a dygai, trwy ei bwyll a'i hunawsedd, lawer o bethau dyrus ac anhawdd i benderfyniad boddhaol, heb friwio teimladau neb. Ychydig, os neb, a lafuriasant yn fwy caled na Mr. Davies,—Pregethai dair gwaith bob sabboth i'r un gwrandawyr, a phedair unwaith yn y mis, trwy y bregeth yn y gweithdy [Workhouse], heb law galwadau eraill yn yr wythnos, megis bedyddio ac ymweled â'r cleifion, angladdau, a llawer o bethau eraill ag oedd yn galw am dano fel gweinidog; dywedir iddo bregethu o 15 i 18 pregeth, yr un wythnos, i glyw yr un gwrandawyr ar ryw achlysur, yr oedd hyn yn ddiau yn galw am lafur a pharodrwydd mawr, a hynod allu meddyliol. Ni chyhoeddai ryw lawer trwy yr argraff wasg; yr oedd ei lafur a'i ofalon yn ei rwystro yn ei amcanion yn hyn, yn aml. Er hyny cyhoeddodd amryw fân bynciau a thraethodau, a rhai pregethau; megis; Rhagluniaeth, &c.; ac y mae etto ryw swm o ysgrfeniadau yn meddiant ei weddw ar ei ol; ond ynghanol ei ddiwydrwydd a'i lafur, ei symyd a gafodd at ei wobr, a'n gadael ninau yn yr anial am ronyn; ac nid oes genym and cofio yr amser gynt, ac ymdrechu gwneuthur ei gynghorion, a dilyn ei esiamplau mewn dwys alar. 2 Cor. 12. 9. oedd ei bregeth olaf.

Mewn bedd y gorwedd y gwron,—gloywaf,
A glewaf o ddynion;
Y cûn a'r cain amcanion,—
Diwyd fardd dan fwrdd y don.

## GALARNAD.

1. Mae rhagluniaeth ddoeth y nefoedd
Im i'n ddyrus nos a dydd,—
Methu gwel'd trwy'r tew gymylau
Y dyfnderau ynddi sydd;
Fel mae'r olwyn fawr yn gweithio
I berffeithio plant y nef:
Weithiau chwerwon ddyfroedd Mara,
Weithiau wledd o Salem dref.

2. Weithiau fry ar Pisga fynydd,
Syllu tegwch Canaan draw,
Eilwaith obry yn y dyffryn,
Mewn wylofain, poen a braw,

Weithiau gwyntoedd cryf yn rhuthro,
Nes diwreiddo cedrwydd mawr
Braidd â natur ar ei chyflwng—
Bron ymollwng iddo lawr.

3. Ninau ynghanol yr ymdaro
Yn ymrwyfo hyd yr ên
Heb gael gweled er ys dyddiau,
Wyneb huan ar ei gwên
Ar nosweithiau blinion, tywyll,
Methu teithio fawr yn mlaen;
O na chelem 'nawr i'n tywys,
Wych arweinydd fel o'r blaen.

4. Coll'som un a garai 'n llwyddiant,
Yn mhob rhinwedd, gras, a dawn,
A chael plant yn etifeddiaeth,
I wybodaeth am y iawn;
DAVIES ddoniol hedodd ymaith,—
Gwr defnyddiol yn y dre;
Nawr rwy'n methu gwel'd yn unlle,
Un o'i ddefnydd yn ei le.

5. Gwr mewn llafur mawr a lludded,
Yn ymboeni gyda'r gwaith,
Er mai pleser calon ydoedd
Ei holl lafur ar ei daith;
Gwr oedd hwn o 'wyllys calon,
Dros ei Arglwydd yn y byd;
Gan ymdreulio, yn ddiflino,
Gasglu 'r perlau gwerthfawr, drud.

6. Rhai oedd Iesu wedi brynu,
(Trwy'ddo golli 'i werthfawr waed),
Pan yn sefyll dros bechadur,
I gael iechydwriaeth rad,—
Hwn gyhoeddai, hwyr a boreu,
Nes daeth terfyn ar ei oes,
I fod Duw yn foddlon maddeu,
Trwy rinweddau gwaed y groes.

7. Cyfaill oedd i'r claf a'r clwyfus,—
Tangnefeddus yn ei le,
Fel nad oedd y gelyn gwaethaf
'N medru beio arno fe:

Thomas Jones Chapel 1848



Ydoedd gyfaill hyd yr eithaf
Idd ei gyfaill yn mhob man;
Ond am elyn, nis gwn iddo
Wneuthur hynny idd ei ran.

8. Gwiliwr oedd a llygad effro,
Fe ganfyddai draw y gwall,
Gan roi rhybudd i'r byddinoedd
I ymarfogi rhag y fall;
Gwron oedd o gryf gynheddfau,
Fe'u defnyddiai gyda ffydd,
Gyda'r praidd ar noson dywyll,
Nes cyrhaeddyd gwawr y dydd.

9. Ond yn nghanol grym a defnydd
(Ninnau 'n addo mwynder maith),
Buan, buan, hedodd ymaith,
Fe ddaeth terfyn ar ei daith;
Hedeg wnaeth i'r ardal dawel,
Lle nad oes cystuddiau blin,
Lle mae'r teulu gyd yn moli,
Gyda'r Iesu yn ddiflin.

10. Felly yr oedd arfaeth nefoedd,
Felly yr ordeiniodd Duw;
Byddwn ninnau yma'n barod—,
Llefwn am gael gras i fyw;
Fel bo angau, pan y delo,
I ni'n elw ac yn fraint,
A bod genym sicrwydd gobaith,
Am drigfanau pur y saint.

11. Gwlad yr hedd a gloyw afon,
Gwlad a ffynon bywyd pur,
Gwlad a dolydd gwyrdd meillionog,
Gwlad lle nad oes dalen sur,
Gwlad a'i chyrau 'gyd yn flodeu,
Gwlad y mwyn dawelwch mawr,
Gwlad lle nad ddaw gelyn iddi
Ddim o amser hanner awr.

12. Gwlad ac awyr ddigymylau,
Gwlad o iechyd pur heb haint,
Gwlad a'r Iesu 'n gyfrwng goleu,
Dyma hardd drigfanau'r saint.

Lle mae heddwch fel yr afon,
  Iechydwriaeth fel y mor,
Ac anfeidrol rin y cariad
  Yno, yn anherfynol stor.

13. Dyma'r lle mae'r santaidd dyrfa,
  Ar ben banau'r gwynfyd pur,
Yn cael syllu, gyda phleser,
  Lawr i droion anial dir;
A chael tynu yn llon pan mynont,
  Oddi ar bren y bywyd llawn,
Fyrdd o ffrwythau, peraidd addfed,
  O anfarwol fywiol rawn.

14. Dyma'r lle mae'r oll yn degwch,
  Mwy prydferthwch nag yw'r wawr,
Ac nis gellir ei gyffelybu
  I ddim sy yma ar y llawr;
Am fod Iesu yn ei degwch
  Yn prydferthu yr holl wlad,
Pawb yn llon a'u llygad arno,
  Am ei Iechydwriaeth rad.

15. Y mae'r dyrfa hardd, oruchel,
  Oll mewn llawn awyddfryd pur,
Am y cyntaf am gael parchu'r
  Gwr fu'n diodde'r hoelion dur;
Pawb yn taflu'u hauraidd goron,
  Arwydd gostyngeiddrwydd mwyn,
Gan gydnabod gyda phleser
  'Rhwn fu farw er eu mhwyn.

16. Ac a chwariant auraidd delyn,
  Honno'n llawn o aidd y ne;
Gwedi ei thanno am y tynna'
  Felus foliant iddo fe:
Mi ddychmygai gwelai DAVIES
  'Nawr yn hwylus gyda'r llu;
Edyn Angel 'nawr sydd ganddo,
  Yr olwg arno sydd yn gu.

17. Wedi 'i wisgo mewn gogoniant,
  Hon yw mantell gwlad y gwawl;
O na chelwn innau 'nabod
  I fod genyf iddi hawl:

Dacw dyrfa ddisglaer, danbaid,
  'Nawr yn hedeg yn y nen,
Ac yn nesu nes-nes yma,
  Yn fuan byddant uwch fy mhen.

18. Y mae'r olwg yn fawreddog,
  Tanbaid yw ei hesgyll hwy;
Maent yn myn'd yn gynt na'r awel,
  Treiddiant yr awrygylch trwy;
Mi ddychmyga gwelai DAVIES
  'Nawr yn hoenus gyda'r rhain,
Yn ehedeg yn fawreddog,
  Gorwych yw ei edyn cain.

19. Y mae 'i wyneb yn ddisgleiriach,
  Mil rhagorach nag yw'r wawr,
Dmunoldeb a sirioldeb
  Megis gynt ei dymer 'nawr;
Y mae i gyd yn orchuddiedig
  A rhyw berlau gwerthfawr drud,
Rhai a gerfiwyd yn y nefoedd,
  Anwybodus iawn i'r byd.

20. Arnynt oll mae dirgel arwydd,
  'Rhwn nas gŵyr ond sawl a'u ca;
Dyma roddion Brenin Alpha,
  Rhai'n a roir i'r gweision da:
Aros, DAVIES, pwylla ronyn,
  Gad i'm siarad gair yn llyn,
Er fy mod i yn yr anial,
  Tithau wedi croesi'r glyn.

21. Gad i'm wybod pa'm yr hedaist
  Ti mor ebrwydd tua thre'
Praidd ar wasgar yn yr anial,
  Tithau draw yn salem dre';
Wedi gadael y ma'r cleddyf,
  Yna genyt balmwydd glân,
Yn lle cario croesau blinion
  Genyt goron wych ei gran.

23. *To be sure.* Ai ti sydd yna,
  Fy hen gyfaill ddyddiau gynt?
Ti gai glywed yn bur araf.
  Beth o'm hanes a fy hynt;

Yr oedd genyf gymaint gwyllys
Gyda'r eglwys yna fyw,
Nes daeth galwad yn bur sydyn
I fy hol i deulu Duw.

23 Nid o'wn foddlon 'adael ceraint,
Nid o'wn foddlon 'adael plant,
Chwaithach priod wych, anwylgu ;
Ond mi ge's fy nghyrchu bant :
Da imi, yn wyneb taro,
I fod genyf sylfaen dda,
Wedi 'i gwneud ar Graig yr oesoedd,—
Hono'n unig a barha.

24. Ond yn awr ni chym'rwn filiwn
O'r pleserau goreu ge's,
Am wneud trigfa ar y ddaear,
Can's ni fyddai hynny les ;
'Roedd fy ngwaith i wedi 'i orphen,
Dyna fel y trefnodd Duw ;
Bydd yn foddlon dros fyr dymor,
Does ond amser bach 'i fyw.

25. Yna cei roi'r cleddyf heibio,
Cei y palmwydd yn ei le.
A mil myrdd o roddion hyfryd
Gei di hefyd gydag E' :
Aros, Davies, yma ronyn,
Os na'th gadwaf yn rhy hir,
Y mae ynof innau awydd
Am gael gwybod am y gwir.

26. A oes canu yn y nefoedd,
Pregethu a gweddio'n daer ?
A oes darllen a myfyrio
Yno yn y santaidd air ?
A yw'r dyrfa yno 'n gweled
Siriol wyneb Brenin nen ?
A yw'r gwanaf yn y llwythau
Yno'n cael coroni 'i ben ?

27. Beth yw'r arwydd mawr o urddas
Ag sydd yna yn y nef ?
A yw pawb o'r dyrfa'n gweini
Yn eu cylchoedd iddo Ef ?

"Nid yw'n perthyn i ti wybod
Am drefniadau nef y nef;
Ymwrola ar y ddaear,
Am gael prawf o'i gariad Ef."

28. Hwn a dynn y llwythau adref,
Draw o bedwar cwr y byd;
Ac ni ad ei orchwyl heibio,
Nes cael pawb o'r teulu 'nghyd
Y mae gorwych ddull y nefoedd
Uwchlaw deall pryfyn gwael,
Ac nid cymmwys ar y ddaear
Iddo yna idd ei gael.

29. Y mae yma wych gyneddfau
Wedi 'u glowi fel a thân,
Medrant dreiddio i ddyfnderoedd,—
Anfarwoldeb yw eu cân.
'Wyt ti'n cofio yr hen wreigan
Oedd yn cwynfan dan y gair?
Y mae hono fil mwy synwyr
Nag 'r oedd Roberts, Llanbrynmair.

30. Pethau bychain yw'r dirgeloedd
Oedd fel moroedd yn y byd,
Y mae'n deall yn ehangu,
Ac mae i ehangu o hyd;
Nid yw'r goreu ar y ddaear,
Yn ei ddawn athrylith gref,
Ond du gwmmwl i'w gydmaru
Wrth y gwaela' yn y nef.

31. Dyma'r wlad lle mae darlithiau,
Nad oes gallu yn y byd
Idd eu derbyn i'r eglurdeb
Maent yn cael eu rhoddi 'nghyd;
Gwlad yw hon o bur eglurdeb,
A disgleirdeb fel yr haul,
Ac mae'r oll yn d'od i'r goleu,
Trwy rinweddau Adda 'r ail.

32. Y mae llawn gyfrolau'r nefoedd
Yn agored o fy mlaen,
Medraf ganfod mewn munydyn
Fwy nag einioes fel o'r blaen;

Gwlad yw hon o lawn dawelwch,
A phrydferthwch trwy'r holl le;
Ymwrola i fod yn barod,
Rhaid i minnau dynnu 'i dre."

33. Yna gwnaeth yn ebrwydd godi,
Fel rhyw eryr cadarn cry';
Buan, buan aeth o'r golwg,
Yn y cwmwl goleu fry:
'Roedd yr olwg yn ardderchog
Arno 'n cychwyn yn ei hynt,
Gyda'i wallt modrwyog arian
Yn cyhwfan yn y gwynt.

34. Yn fawreddog 'roedd yr olwg,
Mewn llawn syndod yr e's i;
Ac a syrthiais ar y ddaear,—
Yno 'r wylais ddw'r yn lli,
Am nad allwn ddal yr olwg
Oedd yn ogoneddus fawr,
Heb ystyried y mai pryfyn
Ydyw pob un ar y llawr.

35. Darfu DAVIES fwyn ein gadael,
Pan oedd yn ei gyflawn glod;
Cyn i'w ddyddiau lawn gyrhaeddyd
Pedwar deg a phedair oed;
Ar yr ailfed dydd o Dachwedd,
Yn bur foreu gyda'r wawr,
Gadael wnaeth y corph oedd afiach
I gael enaid holl iach 'nawr.

36. Oedran Brenin y brenhinoedd,
Pan gymerodd hyny le,
Ydoedd gyflawn fil ac wyth gant
Ac atddodi 'i oedran e';
Yna gadael wnaeth ei ofid
Am lawenydd uwch y ser,
Ac oernadau dyffryn galar
I gael seinio anthem ber,

37. Duw fo'n nodded 'nawr i'r weddw,
Tanned drosti 'i aden glyd
A boed iddi byth yn gymorth,
Tra f'o yn yr anial fyd:

Meistres Davies, peidiwch wylo,
  Er mewn gofid yn y glyn,
Dros brydnawn y bydd wylofain,
  Cyn y boreu derfydd hyn.

38. Duw fo'n nodded i'r amddifaid,
  Sy'n galaru yn y glyn,
Rhoed ei ysbryd idd eu cynnal
  Nes eu dwyn i sion fryn;
Bydded iddo idd eu nhoddi
  Yma yn y storom gref,
A phan byddo 'u dydd yn darfod,
  Gael cyfarfod yn y Nef.

39. Boed i Mary a Chathrina
  Gofio fod eu Tad yn fyw;
Er mai tyner mwyn a goll'sant,
  Etto mwynach ydyw Duw;
Bydded iddynt bwyso arno,
  'Nol y cyngor ga'dd ei roi;
A thra byddont yn yr anial,
  Byth at wagedd i ymdroi.

40. Boed i Salem gael ei nhoddi
  Gan Breswylydd mawr y berth,
Bydded ynddi dân yn llosgi,
  Bywyd o anfeidrol werth;
Hwnw losgo'n lân y sorod,
  Gadwo yr anghydfod draw,
Fel na ddelo'r baedd i dwrio
  Nag i beri iddynt fraw.

41. Boed i Rees, y newydd gennad,
  I gael nabod nodded Duw;
Gyda'r praidd tra fyddo yn aros,
  Ac o fewn y byd yn byw:
Profi gelo wlith y nefoedd,
  Yn ireiddo 'i enaid gwan,
A goleuni'r Dwyfol Ysbryd,
  Tros ei fywyd idd ei ran.

DIWEDD.

ARGRAFFWYD GAN J. MORRIS, LLANYMDDYFRI.